

**Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
Cynhadledd Ffôn
20 Mawrth 2020**

Yn Bresennol:

Yr Arglwydd Burns (Cadeirydd)
Lynn Sloman
Elaine Seagriff
Stephen Gifford
Jen Heal
Peter Jones
Peter McDonald (Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth)
Matt Jones (Ysgrifenyddiaeth – Pennaeth Polisi)
Sam Thomas (Ysgrifenyddiaeth – Pennaeth Co)
Mari Williams (Ysgrifenyddiaeth)
Chris Douglas (Tîm Technegol – Arbenigwyr Cludo Nwyddau)
Nick Richardson (Tîm Technegol – Arbenigwr Bysiau)
Gareth Potter (Rheolwr Prosiect yr Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau:

Beverly Owen
James Davies

Cyflwyniad a'r Diweddraf gan yr Ysgrifenyddiaeth

Agorodd yr Arglwydd Burns y cyfarfod gan egluro y newidiadau sy'n digwydd o ran systemau ac adnoddau oherwydd sefyllfa COVID-19.

Rhoddodd Peter McDonald y newyddion diweddraf ynghylch cyngor y Llywodraeth yng ngoleuni COVID-19 a'r camau sy'n cael eu cymryd i liniaru ei effaith, er bod yn rhaid rhoi'r gorau i rai elfennau o'r gwaith h.y. cysylltu â rhanddeiliaid wyneb yn wyneb.

Fframwaith

Bu comisiynwyr yn parhau i drafod y fframwaith ac egwyddorion eu hargymhellion. Cafodd y dulliau o gyflwyno'r wybodaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol eu hystyried hefyd. Cynhaliwyd trafodaethau ar lefel yr uchelgais sydd ei angen i fesurau fod yn llwyddiannus er mwyn cyrraedd amcanion y Comisiwn.

Cludo Nwyddau

Rhoddodd Chris Douglas grynodedb o'i ganfyddiadau hyd yma. Cynhaliwyd trafodaeth ar y data, y dadansoddiad ohono a'r mesurau posibl ar gyfer ystyried cludo nwyddau ymhellach.

Bysiau

Rhoddodd Nick Richardson gyflwyniad ar y ddarpariaeth fysiau bresennol yn y rhanbarth a chyfleoedd i'w gwella. Cynhaliwyd trafodaeth ar ba opsiynau ddylai'r Comisiynwyr eu trafod ymhellach.

Mesurau

Eglurodd Matt Jones sut y mae pob mesur yn cael ei ddatblygu gan y tîm technegol I lywio penderfyniadau'r Comisiynydd ar bacio a gwerthuso. Cynhaliwyd trafodaethau ar sut y mae Comisiynwyr am weld rhai mesurau yn cael eu blaenoriaethu.

Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Comisiynydd ar yr wythnos sy'n dechrau ar Ebrill 20 – yr union ddyddiad i'w gadarnhau.